

Issue 12 Winter 2003 | Rhif 12 Gaeaf 2003

ymlaen

the magazine for youth workers in Wales



- **Sustainable youth work at the Youth Cymru conference**

also

- **The role of the Youth Service in Extending Entitlement**

- **Gwaith ieuenctid cynladwy yng nghynhadledd ieuenctid Cymru**

a

- **Rôl y Gwasanaeth Ieuenctid yn Ymestyn Hawliau**

STARMAN'S HALL

CANOLFAN CANFOD - DISCOVERY CENTRE



Easily accessible via the M4 to Carmarthen, A40 to St Clears, the A477 to Pembroke and the B4319 to Freshwater West via Castlemartin.

COURSES AND TRAINING FOR YOUNG PEOPLE AVAILABLE FROM SPRING 04


- ACCOMMODATION FOR SMALL GROUPS
- ACCOMMODATION AND TRAINING PACKAGES

For further information contact:

DAVE EVANS 02920 575705

Mobile 07968 164366

Email: dave@starmanshall.fsnet.co.uk



Llangorse
in the Brecon Beacons

- Climbing
- Abseiling
- Potholing
- Zip Wires
- Ropes Course
- Riding
- Trekking
- Hacking
Full Days
Half Days
Hours

Dingle Scramble & Outdoor Challenge Course
Bunkhouse Accommodation

Gilfach Farm, Llangorse, Brecon, Powys, LD3 7UH.
Tel 01874 658 272 or 658 584
Fax 01874 658 280 Web: www.activityuk.com

Supported & funded by WTB & Rural Wales Objective 5b Programme

OUR SERVICES FOR YOUNG PEOPLE INCLUDE:

- Careers information, advice and guidance
- Help to find jobs and training
- Help to produce effective CVs
- Support with job applications and interviews
- Access to the Youth Gateway programme
- Additional support for those young people with special needs
- The promotion of enterprise and entrepreneurship

Careers Wales... developing people through lifelong career planning



MAE EIN GWASANAETHAU AR GYFER POBL IFANC YN CYNNWYS:

- Gwybodaeth gyrf.u, cyngor a chyfarwyddyd yn ystod eu cyfnod mewn ysgol a thu hwnt
- Cymorth i ganfod cyfleon addas mewn addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant ar Ûl Blwyddyn 11
- Cymorth gyda chynhyrchu Brasluniau Bywyd (CV) effeithiol
- Cymorth gyda gwneud ceisiadau am swyddi a chyfweliadau
- Y cyfle i gymeryd rhan yn ein Rhaglen Porth leuenctid
- Cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc gydag anghenion arbennig
- Hyrwyddo menter ac entrepreneuriaeth

Gyrfa Cymru... datblygu pobl trwy gynllunio gyrfaedd gydol oes



www.careerswales.com

The magazine for youth workers in Wales.

Ymlaen is published three times a year by the Wales Youth Agency. It is delivered free of charge to 3,000 full and part time youth workers, managers and officers in Wales.

The Wales Youth Agency is an independent grant-aided body, funded by the Welsh Assembly Government to support the youth service in Wales.

All rights reserved. No part of this publication may be copied or reproduced without prior permission of the publisher. The views expressed in Ymlaen are not necessarily those of the Wales Youth Agency.

Whilst every care is taken in the compilation of this publication, the publishers cannot accept responsibility for any inaccuracies or changes since going to press.

Acceptance of advertisements does not imply recommendation by the Wales Youth Agency.

Contacts:

Editorial/enquiries

Liz Sharp, Wales Youth Agency

Advertising/Production

BCPublications, 27 Norwich Road,

Halesworth, Suffolk IP19 8BX

Tel 01986 834250

Email bcsales@micropress.co.uk

Advertising Manager: Mark Chadwick

Printed by Micropress Ltd

(c) Wales Youth Agency

Leslie Court, Lôn y Llyn,

Caerphilly CF83 1BQ.

Tel 029 20 855700

Fax 029 20 855701

Email wya@wya.org.uk

Web www.wya.org.uk

Y cylchgrawn i weithwyr ieuencid yng Nghymru.

Cyhoeddir Ymlaen deirgwaith y flwyddyn gan Gyngor Ieuencid Cymru. Fe'i dosberthir yn rhad ac am ddim i 3,000 o weithwyr ieuencid amser-llawn a rhan-amser, rheolwyr a swyddogion yng Nghymru.

Corff annibynnol sy'n derbyn cymorth grantiau yw Cyngor Ieuencid Cymru, a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo'r gwasanaeth ieuencid yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni cheir copïo nac atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatid y cyhoeddwr ymlaen llaw. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Ymlaen o reidrwydd yn eiddo i Gyngor Ieuencid Cymru.

Er eu bod yn cymryd pob gofal wrth grynhoi cynnwys y cyhoeddiad hwn, ni all y cyhoeddwr dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau na newidiadau ers mynd i'r wasg. Nid yw derbyn hysbysebion yn dynodi fod Cyngor Ieuencid Cymru yn eu cymeradwyo.

Cysylltiadau:

Golygyddol/ymholiadau

Liz Sharp, Cyngor Ieuencid Cymru

Hysbysebu/Cynhyrchu

BCPublications, 27 Norwich Road,

Halesworth, Suffolk IP19 8BX

Ffôn 01986 834250

E-bost bcsales@micropress.co.uk

Rheolwr Hysbysebu: Mark Chadwick

Argraffwyd gan Micropress Cyf

(c) Cyngor Ieuencid Cymru

Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ.

Ffôn 029 20 855700

Ffacs 029 20 855701

E-bost wya@wya.org.uk

Gwefan www.wya.org.uk

ISSN 1352-2914

Welcome to the Winter edition of Ymlaen, the magazine for youth workers in Wales. In this edition John Holmes looks at the role of the youth service in Extending Entitlement, we cover the range of funding opportunities for international work and Veronica Wilson questions our understanding of 'participation'. A report from Youth Cymru's annual conference, which took place earlier this year, is also included.

If you would like to contribute an article, or require any further information on Ymlaen, please contact Liz Sharp. Copy deadlines for future editions are posted on the WYA website.

Croeso i'r rhifyn Gaeaf o Ymlaen, y cylchgrawn i weithwyr ieuencid yng Nghymru. Yn y rhifyn hwn bydd John Holmes yn edrych ar rôl y gwasanaeth ieuencid yng nghyd-destun Ymestyn Hawliau, byddwn yn trafod y cyfleoedd cyllido ar gyfer gwaith rhyngwladol a bydd Veronica Wilson yn ystyried ein dealltwriaeth o 'cyfranogi'. Hefyd, ceir adroddiad ar gynhadledd flynyddol Ieuencid Cymru a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Os hoffech gyfrannu erthygl, neu am wybod rhagor am Ymlaen, cysylltwch â Liz Sharp. Mae'r dyddiadau terfyn ar gyfer rhifynnau'r dyfodol i'w gweld ar safle CIC.

CONTENTS | CYNNWYS

- | | |
|---|--|
| <p>4 News
Newyddion</p> <p>9 Good practice in photographing young people
Arfer da wrth dynnu lluniau pobl ifanc</p> <p>10 Social inclusion, partnerships and learning – the role of the Youth Service in Extending Entitlement
Cynhwysiant cymdeithasal, partneriaethau a dysgu – rôl y Gwasanaeth Ieuencid yn Ymestyn Hawliau</p> <p>14 Llanrumney generation project bridges the age gap
Prosiect cenedlaethau Llanrhymni yn pontio'r bwlch</p> <p>16 Overview of the European YOUTH funding programme, plus connecting futures in Azerbaijan
Golwg cyffredinol ar y rhaglen IEUENCTID Ewropeaidd, ynghyd â sylwadau ar y dyfodol yn Azerbaijan</p> | <p>18 Veronica Wilson discusses the concept of young people's participation
Veronica Wilson yn trafod cyfranogi gan bobl ifanc</p> <p>21 Courtney Taylor poses the question, is youth work training in Wales standing still or moving forward?
Courtney Taylor yn gofyn a yw hyfforddiant gwaith ieuencid yng Nghymru'n symud ymlaen ynteu'n sefyll yn stond</p> <p>24 Bert Jones talks about sustainable youth work at the Youth Cymru conference
Bert Jones yn trafod gwaith ieuencid cynladwy yng nghynhadledd Ieuencid Cymru</p> <p>28 The Handy Guide to Self Assessment and YWSP Toolkit
Yr Arweiniad Hwylus i Hunanasesu a'r Pecyn YWSP</p> <p>30 Janice Roberts of Denbighshire Youth Service
Janice Roberts, Gwasanaeth Ieuencid Sir Ddinbych</p> |
|---|--|

Cover: Peter Landers and young people of Newport YMCA promote their youth exchange project with Guangxi, China, at the seminar celebrating international youth work (page 14).

Clawr: Peter Landers a phobl ifanc o YMCA Casnewydd yn hyrwyddo'r prosiect cyfnewid ieuencid gyda Guangxi, Tsieina, yn y seminar yn dathlu gwaith ieuencid rhyngwladol (tudalen 14).

Safe & Sustainable Youth Work promoted at Youth Cymru's National Training Conference

130 youth workers from all over Wales met at the Penglais campus of University College Aberystwyth for the Youth Cymru National Training Conference 2003 that was held on the weekend of 11-13 July.

Keynote speeches from Doug Nicholls and Bert Jones addressed safe youth work practice and sustainability respectively. The speakers emphasised the potential influence of grass-roots youth workers on policy and practice. They both felt that the drive to sustain good youth work practice should not be underestimated and urged delegates to be proactive in their approach. A summary of Bert's speech appears on page 24.

An extensive selection of workshops was available, tailored specifically to assist and develop workers' practice with young people. These included:

- Child Protection (Partnership at Work)
- Disability Issues (Viva Project)
- Employment Law (CYWU)
- International Youth Volunteering (UNA Exchange)
- Managing Violence and Aggression (CYWU)
- Risk Assessment (St. John Ambulance)

- Young Peoples Partnerships (CWVYS)
- Domestic Violence (Llanelli YWCA)
- Global Citizenship (Global Connections)
- Healthy Living (Youth Cymru)
- Just About Managing (Staff College)
- Personal Discovery (Penarth Information Shop)
- Reality Baby (The Hive & Youth Cymru)
- Sexual Health (Sex Sense)
- Youth Achievement Awards (Youth Cymru)

Speaking of the value of the conference to youth workers, one delegate said: "There are so many reasons why youth workers should meet annually...nothing is more motivating and invigorating than bouncing ideas and experiences between like-minded individuals. This year the workshop on employment law was eye-opening, making one think of how vital knowledge of employment legislation can affect youth work practice." Commenting on the diversity of delegates, he said: "It is probably the only occasion when statutory and voluntary sectors work together to produce a conference which unifies Wales...The workshops are led by

individuals from many and varied organisations, the participants are from all sectors."

Youth Cymru Chief Executive Keith Thomas commented: "We're trying to place ourselves at the centre of developing high quality youth work opportunities in Wales...The centrepiece of all our work is the National Conference... Above all, it provides an opportunity for people with a passion for working with young people to gather together and share their knowledge and experience with like-minded people. As an event it provides training opportunities, it improves skills, disseminates good practice and helps to raise the quality of services to young people in Wales."

■ For further information please contact Youth Cymru on 029 20 616123 or visit www.youthcymru.org.uk

■ Bert Jones emphasised the need for a YWOW (Youth Workers of Wales) Forum and has since set up a practitioners discussion group on the website of the Wales Youth Agency. To take part please visit www.wya.org.uk/english/discussiongroups.asp

Holding the baby

A babysitting course in Cwmbran has been so successful that the students have asked Torfaen Council to continue it.

Safe Babysitting started last September at Thornhill Youth Centre but is still running as the students earn more credits towards their Open College Network courses. About six students aged 14-15 take part every Wednesday evening from 6.30 to 7.30pm.

The course looks at what makes a safe babysitter, covering the roles and responsibilities involved. Students practise their skills with a £250 doll that cries randomly whenever it needs milk, water or a nappy change and does not stop crying until it gets what it wants. They also take part in role-plays dealing with different situations, for example, what to do if the parents try to leave the house without telling the babysitter where they are going.

Youth Worker Teresa Green commented: "Safe Babysitting has been so popular that the students don't want it to end. I have had to keep finding new things for them to do."

The success of the babysitting course has led to it being delivered as part of the Life Skills/PSHE curriculum in a local school.

The school lies in a Communities First area that has a traditionally high teenage pregnancy rate. This course also utilises the lifelike American 'Baby - Think it Over' dolls, and combined with the recently introduced C-Card Condom Scheme, aims to target the rising teenage pregnancy and sexually transmitted infection rates.

For further information, contact Teresa Green on 01495 7588868



Magu'r baban

Mae cwrs gwarchod plant yng Nghwmbran wedi bod mor llwyddiannus fel mae'r dysgwyr wedi gofyn i Gyngor Torfaen barhau i'w gynnig.

Fe gychwynnodd Gwarchod Plant yn Ddiogel fis Medi diwethaf yng Nghanolfan Ieuenctid Thornhill, ond mae'n dal i redeg wrth i'r dysgwyr ennill mwy o gredydau tuag at eu cyrsiau Rhwydwaith Coleg Agored. Fe fydd tua chwech o ddysgwyr 14-15 oed yn cymryd rhan bob nos Fercher rhwng 6.30 a 7.30pm.

Mae'r cwrs yn edrych ar nodweddion gwarchod plant yn ddiogel, gan drafod y roliau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig. Mae'r dysgwyr yn ymarfer eu sgiliau gyda dol £250 sy'n crio yn annisgwyl bob tro mae angen llaeth, dŵr neu newid clwt nes bydd yn cael y peth iawn. Mae'r dysgwyr yn chwarae rôl hefyd gan ddelio â gwahanol sefyllfaoedd, er enghraifft, beth i'w wneud os bydd y rhieni'n ceisio gadael heb ddweud ble maen nhw'n mynd.

Yn ôl y Weithwraig Ieuenctid Teresa Green: "mae Gwarchod Plant yn Ddiogel wedi bod mor boblogaidd fel bod y dysgwyr am iddo barhau. Mae'n rhaid imi feddwl am bethau newydd i'w gwneud o hyd."

Mae llwyddiant y cwrs gwarchod plant yn golygu ei fod yn cael ei gynnig fel rhan o'r cwricwlwm Sgiliau Bywyd/ABCh mewn ysgol leol.

Mae'r ysgol mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf lle mae traddodiad o feichiogi ymhlith merched yn eu harddegau.

Mae'r cwrs hefyd yn defnyddio doliau 'Baby - Think it Over' o America, a'r bwriad ydy defnyddio'r rhain ynghyd â'r Cynllun Condomau Cerdyn C i dargedu'r cynnydd mewn beichiogi yn yr ardegau a chlefydau rhywiol.

I wybod rhagor, cysylltwch â Teresa Green ar 01495 758868

Hybu Gwaith Ieuenctid Diogel a Chynladwy yng Nghynhadledd Hyfforddi Genedlaethol Ieuenctid Cymru

Daeth 130 o weithwyr ieuenctid o bob rhan o Gymru at ei gilydd ar gampws Penglais, Prifysgol Cymru Aberystwyth ar gyfer Cynhadledd Hyfforddi Genedlaethol Ieuenctid Cymru 2003 a gynhaliwyd ar benwythnos 11-13 Gorffennaf.

Cafwyd anechiadau allweddol gan Doug Nicholls a Bert Jones ar arfer gwaith ieuenctid diogel a chynladwydd yn y drefn honno. Pwysleisiodd y siaradwyr ddylanwad potensial gweithwyr ar y maes ar bolisi ac arfer gwaith ieuenctid. Teimlai'r ddau na ddylid diystyru'r ymgyrch i gynnal arfer da mewn gwaith ieuenctid gan annog y cynadleddwyr i fod yn weithredol. Ceir crynodeb o anechiad Bert ar dudalen 25.

Yr oedd dewis eang o weithdai ar gael, a drefnwyd yn benodol i gynorthwyo a datblygu arfer gweithwyr gyda phobl ifanc. Yn eu plith caed:

- Diogelu Plant (Partneriaeth yn y Gweithle)
- Materion Anabledd (Prosiect Viva)
- Cyfraith Cyflogaeth (CYWU)
- Gwirfoddoli Ieuenctid Rhyngwladol (Cynllun Cyfnewid Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig)
- Rheoli Trais ac Ymosod (CYWU)
- Asesu Risg (Ambiwylans Sant Ioan)
- Partneriaethau Pobl Ifanc (CWVYS)
- Trais yn y Cartref (YWCA Llanelli)
- Dinasyddiaeth Fyd-eang (Global Connections)
- Byw'n Iach (Ieuenctid Cymru)
- Rheoli (Coleg Staff)
- Darganfyddiad Personol (Siop Wybodaeth Penarth)
- Babi Realiti (Y Cwch Gwenyn a Ieuenctid Cymru)
- Iechyd Rhywiol (Sex Sense)
- Gwobrau Cyflawniad Ieuenctid (Ieuenctid Cymru).

Wrth sôn am werth y gynhadledd i weithwyr ieuenctid, dywedodd un o'r cynadleddwyr:

"Mae yna gynifer o resymau pam dylai gweithwyr ieuenctid gwrdd bob blwyddyn...does dim yn well o ran ysgogi a bywiogi na phobl o feddwl cyffelyb yn cyfnewid syniadau a phrofiadau. Eleni, roedd y gweithdy ar gyfraith cyflogaeth yn agoriad llygad, gan wneud i rywun feddwl fel y gall gwybodaeth am y ddeddfwriaeth ar gyflogaeth effeithio ar arferion gwaith ieuenctid."

Wrth drafod amrywiaeth y cynadleddwyr, ychwanegodd: "Mae'n debyg mai hwn yw'r unig gyfle sydd gan y sectorau statudol a gwirfoddoli i weithio gyda'i gilydd i greu cynhadledd sy'n uno Cymru... Mae'r gweithdai dan arweiniad unigolion o amryw byd o fudiadau, ac mae'r rhai sy'n cymryd rhan

ynddyn nhw yn dod o bob sector."

Meddai Prif Weithredwr Ieuenctid Cymru, Keith Thomas: "Rydyn ni'n ceisio creu lle inni'n hunain yng nghanol datblygu cyfleoedd i waith ieuenctid o ansawdd yng Nghymru... Canolbwynt ein gwaith ydy'r Cynhadledd Genedlaethol... Uwchlaw popeth, mae'n creu cyfle i bobl sydd ag angerdd dros weithio gyda phobl ifanc i ddod at ei gilydd i rannu gwybodaeth a phrofiad gyda phobl o feddwl tebyg. Fel digwyddiad, mae'n creu cyfleoedd hyfforddi, mae'n gwella sgiliau, mae'n lledaenu arfer da ac mae'n helpu i godi ansawdd gwasanaethau i bobl ifanc yng Nghymru."

■ I wybod rhagor cysylltwch â Ieuenctid Cymru ar 029 20 616123 neu ewch at www.youthcymru.org.uk

■ Pwysleisiodd Bert Jones yr angen am Fforwm i Weithwyr Ieuenctid Cymru, ac ers hynny mae wedi sefydlu grŵp trafod ar wefan Cyngor Ieuenctid Cymru. I gymryd rhan, ewch at www.wya.org.uk/welsh/discussiongroups.asp



Farewell Brian!

As you may be aware, Brian Williams has recently retired as Chief Executive of the Wales Youth Agency on the grounds of ill-health. Brian has been a key figure within the Youth Service in Wales since 1991 and has made a significant contribution to its development. It is the intention of the Board of Directors of the Wales Youth Agency to celebrate this contribution and to mark his retirement with a suitable event to be held in the future. We all wish Brian a long, happy and healthy retirement.

John Rose will continue in his capacity as Acting Chief Executive



Hwyl Fawr Brian!

Fel y gwyddoch efallai, ymddeolodd Brian Williams yn ddiweddar fel Prif Weithredwr Cyngor Ieuenctid Cymru oherwydd afiechyd. Mae Brian yn ffigur allweddol yn y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru er 1991 gan wneud cyfraniad sylweddol tuag at ei ddatblygiad. Bwriad Bwrdd Cyfarwyddwyr Cyngor Ieuenctid Cymru yw dathlu'r cyfraniad hwn a nodi achlysur ei ymddeoliad gyda digwyddiad addas i'w gynnal yn y dyfodol. Rydym bawb yn dymuno ymddeoliad hir, hapus a iach i Brian.

Bydd John Rose yn parhau yn ei swydd fel prif weithredwr Gweithredol

New mountain weather forecast for Wales

A new free of charge weather forecast for hill walkers and climbers in the Brecon Beacons and Snowdonia was launched in October by Sports Minister Alun Pugh.

The forecast, called Mountain Weather Wales gives detailed information on the conditions in the mountains such as wind speed, visibility and temperature. It will be accessible each morning from 5.30 am on both the Met Office web-site and the Wales Tourist Board website on a trial basis until March 2004.

The provision of a specialised weather forecast, free of charge, for walkers and mountaineers was a recommendation made by the Wales Outdoor Activities Awareness Forum which was set up, in March 2002, to look at the best ways of circulating safety information to people who take part in outdoor activities.

Roger Hunt, Operations Director at the Met Office said: "On a clear day the mountains of Wales are beautiful places to be, but when the weather changes they can become dangerous for the unprepared. For hill walking, an up-to-date weather forecast should be as important as the right clothing."

The £12,000 for the forecast will be funded from the £40k made available from the Welsh Assembly Government to the Sports Council this financial year in order to implement the recommendations made by the Forum. The forecast is available from www.metoffice.gov.uk/loutdoor/mountainsafety/snowdonia www.metoffice.gov.uk/loutdoor/mountainsafety/brecon

Rhagolygon tywydd newydd ar y mynyddoedd i Gymru

Cafodd gwasanaeth newydd di-dâl sy'n rhoi rhagolygon y tywydd i gerddwyr a dringwyr ar Fannau Brycheiniog ac yn Eryri ei lansio ym mis Hydref gan y Gweinidog Chwaraeon, Alun Pugh.

Mae'r gwasanaeth, Tywydd Mynyddoedd Cymru, yn cynnig gwybodaeth fanwl am y tywydd yn y mynyddoedd megis cyflymder y gwynt, pellter gweld a'r tymheredd. Bydd ar gael bob bore o 5.30am ar wefan y Swyddfa Dywydd a gwefan Bwrdd Croeso Cymru am gyfnod prawf hyd fis Mawrth 2004.

Argymhellwyd gwasanaeth tywydd arbenigol a di-dâl gan Fforwm Ymwybyddiaeth Gweithgareddau Awyr Agored Cymru, a sefydlwyd ym Mawrth 2002, i edrych ar y ffordd orau o ledaenu gwybodaeth am ddiogelwch i bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Yn ôl Roger Hunt, Cyfarwyddwr Gweithredodd yn y Swyddfa Dywydd: "Ar ddiwrnod clir lle prydferth yw mynyddoedd Cymru, ond os bydd y tywydd yn troi gallan nhw fod yn beryglus i bobl sydd heb ymbaratoi. I rai sy'n cerdded y brynau, fe ddylai rhagolygon tywydd diweddar fod mor hanfodol â'r dillad iawn."

Bydd y £12,000 i dalu am y gwasanaeth yn dod o'r £40k a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Cyngor Chwaraeon eleni er mwyn gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Fforwm. Gellir gweld y rhagolygon ar www.metoffice.gov.uk/loutdoor/mountainsafety/snowdonia www.metoffice.gov.uk/loutdoor/mountainsafety/brecon

WCVA Criminal Record Unit opens for business

The WCVA's new criminal record check unit began operations in October. This development will simplify access to the CRB procedure and reduce expense for the voluntary sector.

Set up with the aid of a £219,000 National Assembly grant, the unit, which is based in Colwyn Bay will process disclosure applications and also provide information and advice via a dedicated helpline. Training on using the service to reduce the organisational risks of working with children and vulnerable adults will also be made available.

Voluntary bodies wishing to use the service must first apply for entitled user status. Unit head Liz Flack stated: "We will make no administrative charges to organisations that have been accepted as registered users other than those levied by the Criminal Records

Bureau in relation to the costs of disclosure checks." Currently, the CRB charges for enhanced and standard checks relating to paid employees; checks on volunteers are free of charge.

The WCVA website and e-briefings to WCVA members will cover developments in this area as and when they occur.

Headed by Liz Flack with Julie Watson as service organiser, The Criminal Record Unit currently has a complement of 7 staff. Ms Flack commented: "We are aware that expectation is high for this long-awaited service...and we are working closely with the CRB to ensure the needs of the sector are fully met. It is an exciting and challenging time and the team is looking forward to helping the sector make informed/safer recruitment choices."

The CRU Enquiry Service phone number is 0870 241 6557

Uned Gofnodion Troseddau CGGC yn agor

Mae uned gofnodion troseddau newydd CGGC wedi cychwyn ar ei waith ym mis Rhagfyr. Bydd y datblygiad hwn yn ei gwneud yn haws defnyddio'r drefn o wirio cofnodion ac yn lleihau costau i'r sector gwirfoddol.

Sefydlwyd yr uned gyda chymorth grant o £219,000 gan y Cynulliad, a bydd ar waith ym Mae Colwyn yn prosesu ceisiadau am ddatgeliadau gan ddarparu gwybodaeth a chyngor hefyd trwy linell gymorth benodedig. Bydd hyfforddiant ar ddefnyddio'r gwasanaeth i leihau'r risgiau i'r sefydliad wrthweithio gyda phlant ac oedolion diymgeledd ar gael hefyd.

Rhaid i gyrff gwirfoddol sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth wneud cais yn y lle cyntaf am statws defnyddwyr â hawl. Yn ôl pennaeth yr uned, Liz Flack: "Fyddwn ni ddim yn gwneud newidiadau gweinyddol i fudiadau sydd wedi cael eu derbyn fel defnyddwyr cofrestredig ac

eithrio'r ffioedd a godir gan y Swyddfa Gofnodion Troseddau am wirio a datgelu." Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa'n codi tâl am wiriadau uwch a safonol mewn perthynas â gweithwyr cyflog; ni chodir tâl am wirio gwirfoddolwyr.

Bydd gwefan CGGC ac e-fwletinau at aelodau CGGC yn trafod datblygiadau yn y maes hwn yn ôl y galw.

Dan arweiniad Liz Flack gyda Julie Watson yn drefnydd y gwasanaeth, mae gan yr Uned Gofnodion Troseddau 7 o staff ar hyn o bryd. Meddai Ms Flack: "Rydyn ni'n ymwybodol bod disgwyliadau mawr o'r gwasanaeth hwn...ac rydyn ni'n cydweithio'n agos â'r Swyddfa er mwyn sicrhau ein bod yn ateb anghenion y sector. Dyma gyfnod cyffrous a heriol ac mae'r tîm yn edrych ymlaen at helpu'r sector i recriwtio mewn ffordd fwy gwybodus a diogel."

Rhif ffôn Gwasanaeth Ymholiadau'r Uned yw 0870 241 6557

Canllaw Online Info-Worker event is a first for Wales

Over 100 workers in information services for young people from across Wales recently enjoyed an action packed working conference at the Royal Welsh Showground, Builth Wells.

The event was the first time that workers in information services for young people had assembled in such quantity and with such purpose, clearly demonstrating the emerging importance of and the continued need for a nationally co-ordinated information service. 20 of the 22 local authorities in Wales were represented at the event by designated workers with a responsibility for providing quality information services to young people.

A packed conference hall was led through a busy programme, which began with a brief history of youth information work in Wales provided by Chairman of the Canllaw Online

Management Board, Jim Humphreys.

Canllaw Online Director, Elise Stewart, then outlined some of the European and Domestic opportunities available to the field, reinforced the dedication of Canllaw Online to maintaining a strong national network of information providers for young people and pledged to continue this role.

The busy day was jam-packed with presentations by some of the current 112 registered Youth Info Outlets. These were followed by practical workshops on specific areas within information services such as Housing, Benefits, New Technologies, and



Canllaw Online Working Practices.

Many of the projects present showed displays of highly innovative outreach and static work and there was also a rare opportunity to see 8 of the Info Mobile vans from around Wales all gathered together in the sunny showground car park (a real highlight for many).

A key aspect of the day was the launch of a new Canllaw Online website specifically for workers in Information Services for Young People. The website, set-up in direct response to feedback from the field requesting a national forum for the sharing of working practise, ideas, tips, news, activities and events.

Key to the success of the site is a steady flow of content contribution from workers in information services from across the length and breadth of Wales. Visit the workers site at www.infooutlets.com and send your content contributions to Mick Conroy at mickconroy@canllaw-online.com or Elen Jones at elenjones@canllaw-online.com

If you are interested in joining the national network or would like a full report of the event please contact Mick Conroy at: mickconroy@canllaw-online.com Tel. 029 2088 7868

Digwyddiad Canllaw Online i Weithwyr Gwybodaeth yn torri cwys newydd i Gymru

Cafodd tros 100 o weithwyr mewn gwasanaethau gwybodaeth i bobl ifanc o bob rhan o Gymru gynhadledd ymarferol gyffrous yn ddiweddar ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanfair ym Muallt.

Hwn oedd y tro cyntaf i weithwyr mewn gwasanaethau gwybodaeth i bobl ifanc ddod at ei gilydd yn y fath niferoedd gyda bwriad o'r fath. Roedd yr achlysur yn arwydd clir pa mor bwysig yw'r angen am wasanaeth gwybodaeth a gydlynir yn genedlaethol. Roedd cynrychiolwyr yno o 20 o'r 22 o awdurdodau yng Nghymru, a gweithwyr sydd â chyfrifoldeb penodedig am ddarparu gwasanaethau gwybodaeth o ansawdd i bobl ifanc.

Fe aeth y gynhadledd lawn trwy'r rhaglen, gan gychwyn gyda hanes cryno gwaith gwybodaeth i bobl ifanc yng Nghymru dan ofal Cadeirydd Bwrdd Rheoli Canllaw Online, Jim Humphreys.

Wedyn, amlinellwyd rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y maes yn Ewrop ac yn y wlad hon gan Gyfarwyddwr Canllaw Online, Elise Stewart. Soniodd am gryfhau ymroddiad Canllaw Online i gynnal rhwydwaith cenedlaethol cadarn o ddarparwyr gwybodaeth i bobl ifanc ac addawodd barhau gyda'r gwaith hwnnw.

Roedd y diwrnod prysur yn llawn cyfraniadau gan rai o'r 112 o Ganolfannau Gwybodaeth Ieuencid cofrestredig. Dilynwyd y rhain gan weithdai ymarferol ar feysydd neilltuoel o fewn gwasanaethau gwybodaeth megis Tai, Budd-daliadau, Technoleg Newydd, ac Arferion Gwaith Canllaw Online.

Roedd llawer o'r prosiectau yn y digwyddiad wedi arddangos eu gwaith sefydlog ac estyn ac roedd cyfle prin hefyd i weld wyth o'r faniau gwybodaeth ar daith o bob rhan o Gymru yn yr heulwen ar



faes y sioe (uchafbwynt y diwrnod i lawer o bobl).

Un agwedd allweddol ar y diwrnod oedd lansio gwefan newydd Canllaw Online yn benodol i weithwyr mewn gwasanaethau gwybodaeth i Bobl Ifanc. Fe sefydlwyd y wefan yn dilyn cais gan weithwyr am fforwm cenedlaethol i rannu arferion gwaith, syniadau, awgrymiadau, newyddion, gweithgareddau a digwyddiadau.

Yr allwedd i lwyddiant y safle ydy llif cyson o gynnwys gan weithwyr mewn gwasanaethau gwybodaeth ar draws Cymru. Fe gewch chi weld y safle ar www.infooutlets.com a gyrru eich cyfraniadau at Mick Conroy ar mickconroy@canllaw-online.com neu at Elen Jones ar elenjones@canllaw-online.com

Os hoffech chi ymuno â'r rhwydwaith cenedlaethol neu os hoffech dderbyn adroddiad llawn ar y digwyddiad cysylltwch â Mick Conroy ar: mickconroy@canllaw-online.com Ffôn. 029 2088 7868

Training success for deaf students

Eight deaf students achieved success in their Introduction to Access OCN training held in North Wales. They were presented with their certificates by Karen Sinclair AM at a recent activity week at Llangollen Youth Hostel.

Completion of the training represents a significant achievement for the students, some of whom had to cope with additional disabilities. Two of the passes were at level one and six at levels two and three.

The OCN Youth and Community training was delivered by the Staff College in partnership with the British Deaf Association and Flintshire County Council at a centre in Mold.

There are now a total of 35 deaf youth workers in Wales who have undergone training. 27 of these have gained locally qualified status and of these, four (pictured at their graduation ceremony) have recently completed the BA in Youth and Community Work at University of Wales College Newport.

Hyfforddiant Llwyddiannus i Fyfirwyr Byddar

Llwyddodd wyth o fyfirwyr byddar yn eu cwrs Rhagarweiniad o Fynediad dan y RhCA yn ddiweddar. Cyflwynwyd eu tystysgrifau gan Karen Sinclair AC mewn wythnos o weithgareddau yn Hostel Ieuencid Llangollen.

Mae cwblhau'r hyfforddiant yn dynodi camp go fawr i'r myfirwyr, y mae rhai ohonynt yn gorfod dygymod ag anableddau eraill. Pasiodd dau ar lefel un, chwech ar lefelau dau a thri.

Darparwyd yr hyfforddiant RhCA mewn Ieuencid a Chymuned gan y Coleg Staff mewn partneriaeth â Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain a Chyngor Sir y Fflint mewn canolfan yn yr Wyddgrug.

Mae cyfanswm o 35 o weithwyr ieuencid byddar yng Nghymru wedi derbyn hyfforddiant erbyn hyn. Mae 27 o'r rhain wedi ennill statws cymhwyster lleol ac o'r rhain, mae pedwar (a welir yn y llun yn eu seremoni raddio) newydd ennill BA mewn Gwaith Ieuencid a Chymuned yng Ngholeg Prifysgol Cymru Casnewydd.



A box of dramatic delights

A group of young women from YWCA Cwmaman are planning to get on stage with a drama they have devised, written and directed themselves, inspired by the contents of a box. The girls, aged 11-16, will be giving a one-off performance of their theatre piece at the YWCA centre in Cwmaman in November.

The play was created as a part of a cultural exchange with young women from the Ogmore Valley. The two youth groups sent each other 'culture boxes' filled with visual clues about their lives and the issues that concern them. They then met and spent a week together in St David's, each creating a short play inspired by the contents of the box they had been sent.

The residential weekend was a huge success, with strong links forged between the two groups of girls. And now the Cwmaman group is looking forward to performing their play to an audience of parents, friends and representatives from national and local organisations. The group isn't revealing the full details of the story, as they want it to be a surprise for their audience, but it covers many everyday concerns young women face, such as boredom, wanting to fit in with the crowd, relationships and education.

Having already seen the other group's play, Gemma, 16 from Cwmaman said: "The performance was really good and it really did remind me of us. It was brill." Speaking of the bond between the two youth groups, Alicia, 13, said: "The other girls were mad and kind and I got on with them all and I would love to meet them again."

Carys Lovering, one of the YWCA's youth workers at Cwmaman, said: "This whole project has been fantastic. We've seen a meeting of minds between two groups of young women, who at first seemed very different. Friendships have been forged, but more than that, the girls have been able to use their creativity to explore some of the issues that they face every day."

For further information please call Carole Scott in the YWCA's press office on 01865 304216

Llund bocs o bleserau dramatig

Mae criw o fenywod ifanc o YWCA Cwmaman am lwyfannu drama a ddyfeisiwyd, a ysgrifennwyd ac a gyfarwyddwyd ganddynt, wedi ei hysbrydoli gan gynnwys bocs. Bydd y merched, 11-16 oed, yn cyflwyno un perfformiad o'u drama yng nghanolfan yr YWCA yng Nghwmaman ym mis Tachwedd.

Crëwyd y ddrama fel rhan o gynllun cyfnewid diwylliannol gyda menywod ifanc o Gwm Ogwr. Bu'r ddau grŵp yn gyrru 'bocsys diwylliant' at ei gilydd, gyda chliwiau am eu bywydau ar faterion sydd o bwys ganddynt. Treuliasant wythnos gyda'i gilydd yn Nhyddewi, gyda'r ddau grŵp yn creu drama fer yn seiliedig ar gynnwys y bocs a gawsant.

Roedd y penwythnos preswyl yn llwyddiant mawr, a greodd gysylltiadau cryf rhwng y ddau grŵp o ferched. Bellach mae grŵp Cwmaman yn edrych ymlaen at berfformio'i ddrama o flaen cynulleidfia o rieni, ffrindiau a chynrychiolwyr o fudiadau lleol a chenedlaethol. Nid yw'r merched am ddatgelu holl fanylion y stori, fel y bydd yn agoriad llygad i'r gynulleidfia, ond mae'n ymdrin â llawer o'r materion pob dydd sy'n wynebu menywod ifanc, megis diflastod, eisiau bod yn rhan o'r criw, perthnasoedd ac addysg.

Ar ôl gweld drama'r grŵp arall, dywedodd Gemma, 16 oed o Gwmaman: "Roedd y perfformiad yn dda iawn ac roedd yn ein hatgoffa ni o'n bywydau. Gwych." Wrth sôn am y cysylltiad rhwng y ddau grŵp ieuencid, meddai Alicia, 13 oed: "Roedd y merched eraill yn wallgo ac yn garedig ac roeddwn i'n tynnu ymlaen yn dda gyda phawb. Mi hoffwn i gael eu gweld nhw eto."

Yn ôl Carys Lovering, un o weithwyr ieuencid yr YWCA yng Nghwmaman: "Mae'r holl brosiect yma wedi bod yn ffantastig. Rydyn ni wedi gweld dau griw o fenywod ifanc yn dod i ddeall ei gilydd, a oedd yn ymddangos yn wahanol iawn ar y cychwyn. Mae cyfeillgarwch wedi ffurfio rhyngddynt nhw, ond yn fwy na hynny, mae'r merched wedi cael cyfle i ddefnyddio eu creadigrwydd i archwilio rhai o'r materion sy'n eu hwynebu nhw bob dydd."

I wybod rhagor, ffoniwch Carole Scott yn swyddfa wasg yr YWCA ar 01865 304216.

'Old the front page! Llanrumney youth paper crosses age gap

Young people living in the Llanrumney area of Cardiff recently featured local senior citizens in their youth magazine Just For You.

The paper's reporters, most of whom are in the 14-15 age group, went out into the community to talk to local senior citizens about their views on young people.

Contributors were later invited to a special VIP presentation See the Wider Picture, which was held at the John Reynolds Centre on the 29 August. Organised by NCH Cymru, the event aimed to demonstrate to the older community that young people were interested in a wide range of hobbies and pastimes and that it was unfair to dismiss them all as idle troublemakers.

Fourteen year old reporter Liam Roberts said: "Just because we come from Llanrumney, it doesn't mean we want to ruin the lives of grannies and grandads. The more we talk to old people, the more we understand them and the more they understand us."

NCH Cymru Information Worker Andrew Goode commented: "These young people are developing a sense of community, creativity and involvement. They are aware of the fears and misunderstandings some older people feel about teenagers and are doing something positive to try to overcome this problem."

The presentation was also attended by Children's Commissioner for Wales Peter Clarke, and by Mark Holley, Customer Services Manager of fashion retailer Peacock's, which is a fundraising supporter of NCH Cymru.

This is not the first time Just For You has addressed the generation gap; a previous edition featured interviews with Llanrumney's older generation comparing life in the 1940s with life today.

Just For You is produced in conjunction with NCH Cymru and the Llanrumney Youth Inclusion Project with funding from the Prince's Trust. A community newspaper put together by local young people, it includes articles and advice on a range of subjects including drugs avoidance, health improvement and dealing with relationships. As well as producing the paper, the Just for You team hand-deliver 5,000 copies per issue to homes in their area.

The project is at present trying to set up buddies – young people who will give at least an hour a week to spend time with an older person. This gives both parties the opportunity to discover what life is like on the other side of the fence. Often problems between the generations are caused through perception. One senior citizen said a few weeks ago "I thought that the younger generation don't care about anyone but themselves, but I have to admit they have more issues to deal with than when I was young". Whilst the older generation is surprised at the pressure younger people are under, younger people are finding out the pressures and joys of the senior generation. In one such experience Aaron found himself in a room full of Bingo-loving older folks. Aaron said "I never would have believed that Bingo could be so important and it's good fun too." This project is still very much in its infancy and it is hoped that this will be developed further in 2004 involving more young and older people.

For further information on the Llanrumney Generation Project please contact Andrew Goode on 029 20 360556



Daliwch Arni! Papur ieuenctid Llanrhymni yn pontio'r bwlch

Mae pobl ifanc sy'n byw yn ardal Llanrhymni yng Nghaerdydd wedi rhoi lle i bensiynwyr yn eu papur ieuenctid, Just For You. Fe aeth gohebwyr y papur, y rhan fwyaf ohonyn nhw rhwng 14 a 15 oed, allan i'r gymuned i holi pobl mewn oed am eu barn am bobl ifanc.

Wedi hynny, fe gafodd y cyfranwyr wahoddiad i dderbyniad arbennig, See the Wider Picture, a gynhaliwyd yng Nghanolfan John Reynolds ar 29 Awst. Trefnwyd y digwyddiad gan NCH Cymru gyda'r nod o ddangos i'r gymuned mewn oed fod pobl ifanc yn ymddiddori mewn ystod eang o hobiau a diddordebau amser hamdden a'i bod yn annheg eu diystyru nhw i gyd fel pobl sy'n gwastraffu eu hamser ac yn achosi trwbl.

Yn ôl un gohebydd 14 oed, Liam Roberts: "Os ydyn ni'n dod o Llanrhymni, dyw hynny ddim yn golygu ein bod ni eisiau difetha bywydau pob mam-gu a thad-cu yn y lle. Po fwy roedden ni'n siarad gyda hen bobl, mwya rydyn ni'n eu deall nhw ac yn sicrhau eu bod nhw yn ein deall ni."

Sylwodd Gweithiwr Gwybodaeth NCH Cymru, Andrew Goode: "Mae'r bobl ifanc hyn yn datblygu synnwyr cymuned, creadigedd a chyfranogiad. Maen nhw'n ymwybodol o ofnau a chamddealltwriaethau rhai pobl mewn oed am bobl yn eu harddegau ac maen nhw'n gwneud rhywbeth positif i fynd i'r afael â'r broblem."

